

Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru

Cyllid Rownd 1: Mesurau Marchnata



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Datganiadau o Ddiddordeb – Cwestiynau Ymgeisio

Hysbysiad Preifatrwydd: Cymorth Ariannol gan Lywodraeth Cymru

Sut byddwn yn trin unrhyw ddata personol a roddir gennych mewn perthynas â'ch cais am gyllid grant.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu amrediad eang o gynlluniau grant er mwyn helpu i roi ein polisïau ar waith a chreu Cymru decach, fwy ffyniannus.

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddir gennych mewn perthynas â'ch cais am gyllid grant. Bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n gorchwyl cyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru) ac yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid ac i weinyddu'r grant.

Cyn inni roi cyllid ichi, byddwn yn cynnal archwiliadau er mwyn atal twyll a gwyngalchu arian, ac i wirio eich manylion adnabod. Fel rhan o'r archwiliadau hyn, mae'n ofynnol inni rannu data personol amdanoch chi ag asiantaethau atal twyll trydydd parti.

Os byddwn ni, neu asiantaeth atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o ran twyll neu wyngalchu arian, gallwn wrthod rhoi'r cyllid grant y gwnaethoch gais amdano, neu gallwn stopio darparu cyllid rydych chi eisoes yn ei dderbyn.

Bydd cofnod o unrhyw risg gysylltiedig â thwyll neu wyngalchu arian yn cael ei gadw gan yr asiantaethau atal twyll, a allai olygu y bydd sefydliadau eraill yn gwrthod darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth ichi.

Er mwyn asesu cymhwysedd, efallai y bydd angen inni hefyd rannu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'ch cais â'r canlynol:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
- Awdurdodau Lleol Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- DEFRA
- Y Sefydliad Rheoli Morol
- Gweinyddiaethau Môr a Physgodfeydd eraill y DU
- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau
- Awdurdodau rheoleiddio, megis Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, Awdurdodau Lleol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Heddlu.

Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion derbynwyr grantiau, faint maen nhw wedi'i dderbyn ac enw'r busnesau ar gofrestr tryloywder pan fydd yn ofynnol inni wneud hynny, er enghraifft, o dan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022.

Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol mewn ffeiliau yn unol â'n polisi cadw gwybodaeth. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadw eich data personol am saith mlynedd ar ôl y dyddiad pan fyddwch chi, fel derbynnydd y grant, yn rhydd rhag holl amodau'r grant, ac mae pob taliad wedi'i wneud. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwn yn cadw eich manylion am flwyddyn ar ôl y dyddiad y gwnaethoch eu darparu.

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl i wneud y canlynol:

- gweld y data personol amdanoch mae Llywodraeth Cymru yn ei gadw
- gofyn inni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu data (o dan rai amgylchiadau)
- gofyn inni 'ddileu' eich data (o dan rai amgylchiadau)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y datganiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad GDPR (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data), defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

E-bost: DataProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma'r manylion ar gyfer cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 0330 414 6421

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

RPW (Taliadau Gwledig Cymru) Ar-lein

Rhaid i bob ymgeisydd fod wedi'i gofrestru gydag RPW Ar-lein gan fod rhaid i'r datganiad o ddiddordeb gael ei gyflwyno drwy eich cyfrif RPW Ar-lein.

Os oes gennych Gyfeirnod Cwsmer (CRN) eisoes, dylech fod wedi cael llythyr gyda'ch Cod Actifadu arno er mwyn ichi allu agor cyfrif. Os nad oes gennych y cod hwn, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 (Dydd Llun – Dydd Gwener 9:00 – 16:00) a rhoi eich Cyfeirnod Cwsmer i'r gweithredydd. Bydd yn anfon Cod Actifadu newydd atoch.

I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, mae angen ichi gwblhau'r ffurflen gofrestru ar-lein. Darllenwch ganllawiau [‘RPW Ar-Lein: sut i gofrestru’](#) am ragor o fanylion. Mae modd gwneud y rhan fwyaf o newidiadau y mae angen eu gwneud i fanylion eich busnes ar-lein. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau mawr. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

Ar ôl cofrestru, byddwch yn cael defnyddio eich cyfrif RPW ar-lein. Rhaid cyflwyno'r datganiad o ddiddordeb drwy eich negeseuon. Pan fyddwch yn cyflwyno eich datganiad o ddiddordeb, rhowch ‘Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru – Marchnata’ ar gyfer ‘Teitl y neges hon’. Darllenwch [‘RPW Ar-lein – arweiniad i gwsmeriaid: sut i ddefnyddio negeseuon’](#).

Mae hwn yn gronfa refeniw a gefnogir drwy Lywodraeth Cymru

Darllenwch Lyfryn Canllawiau'r Cynllun gan fod y rhain yn cynnwys manylion llawn y meini prawf cymhwysedd allweddol, cymhwysedd prosiectau a chostau cymwys.

1.1 Enw a chyfeiriad menter yr ymgeisydd

Enw'r fenter	<input type="text"/>
Cyswllt	<input type="text"/>
Cyfeiriad	<input type="text"/>
Cod post	<input type="text"/>
Rhif ffôn	<input type="text"/>
Cyfeiriad e-bost	<input type="text"/>
Cyfeiriad gwe	<input type="text"/>

1.2 Enw a chyfeiriad y prosiect os yw'n gwahanol i'r uchod

Enw	<input type="text"/>
Cyfeiriad	<input type="text"/>
Cod post	<input type="text"/>
Rhif ffôn	<input type="text"/>
Rhif ffôn symudol	<input type="text"/>
Cyfeiriad e-bost	<input type="text"/>

1.3 Manylion y fenter (Ticiwch os yw'n berthnasol)

Statws

Unig fasnachwr	<input type="checkbox"/>	Partneriaeth	<input type="checkbox"/>
Cwmni cyfyngedig preifat	<input type="checkbox"/>	Sefydliad sector cyhoeddus	<input type="checkbox"/>
Elusen/trydydd sector	<input type="checkbox"/>	Grwpiau cymunedol lleol	<input type="checkbox"/>
Cwmni cydweithredol, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus neu gwmni cydfuddiannol	<input type="checkbox"/>	Cwmni cyfyngedig drwy warant	<input type="checkbox"/>
Cwmnïau buddiannau cymunedol	<input type="checkbox"/>	Arall (nodwch)	<input type="text"/>

Maint y fenter

Busnes bach neu ganolig sy'n endid micro Busnes bach neu ganolig nad yw'n endid micro Heb fod yn fusnes bach neu ganolig

Sefydliadau defnyddwyr y môr yn gweithredu ar y cyd

Rhif Cofrestru'r Cwmni (os oes un)

Rhif Elusen (os oes un)

Rhif Cofrestru'r Cwch (os oes un)

Manylion perchnogaeth y cwch – Nodwch pob perchennog cofrestredig y cwch hwn (os yw hynny'n berthnasol)

Rhif y Gofrestr Morwyr a Morgludo (os oes un)

Manylion pob cyfarwyddwr/yddiriedolwr (os yw hynny'n berthnasol)

A ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW? Ydw Nac ydw

Rhif TAW

2.1 Enw'r prosiect

2.2 Disgrifiad o'r prosiect – dim mwy na 200 gair

Esboniad byr a chryno o'r gweithgareddau a gynhelir a/neu y buddsoddiadau a wneir yn ystod y prosiect, gan gynnwys braslun byr iawn o'r hyn y bydd yr arian yn cael ei wario arno a'r hyn y disgwylir ei gyflawni wrth gynnal y prosiect hwn.

2.3 Amserlen y prosiect

Dyddiad dechrau'r prosiect
(DD/MM/BBBB)

Dyddiad gorffen y prosiect
(DD/MM/BBBB)

2.4 Costau'r prosiect

Cyfanswm cost y prosiect

£

Cyfanswm y grant y gofynnir amdano

£

Y gyfradd ymyrryd a ddisgwylir

%

2.5 Caniatâd cynllunio

A oes angen caniatâd cynllunio er mwyn bwrw ymlaen â'r prosiect hwn?

Oes Nac oes

Cyfeirnod y caniatâd cynllunio*

*Pan fydd yn berthnasol mae angen cael caniatâd cynllunio cyn cyflwyno datganiad o ddiddordeb

2.6 Nodwch pa amcanion y rownd mae eich prosiect yn mynd i'r afael â nhw

Dod o hyd i farchnadoedd newydd ar gyfer cynhyrchion physgodfeydd a dyframaeth

Hyrwyddo ansawdd a gwerth

Cyfrannu at dryloywder a'r gallu i olrhain cynhyrchion a marchnadoedd, yn ogystal â chynnal ymchwil i'r farchnad, arolygon ac astudiaethau

3.0 Ariannu'r prosiect – Os nad ydych wedi nodi uchod mai 100% o'r cyllid yw eich cyfradd ymyrryd, disgrifiwch y ffordd y byddwch yn sicrhau arian cyfatebol ar gyfer y prosiect hwn drwy ddewis un neu fwy o'r opsiynau

	Swm (£)
Cyfalaf cyfranddaliadau/cyfrif cyfalaf	
Benthyciadau banc a benthyciadau eraill	
Gorddrafft	
Balans arian parod presennol/arian wrth gefn	
Cyllid arall gan y sector cyhoeddus/preifat (nodwch)	
Cyfanswm yr Arian Cyfatebol	

Y meini prawf ar gyfer dewis datganiadau o ddiddordeb

Asesu ar gyfer dewis

Bydd datganiadau o ddiddordeb yn cael eu hasesu yn erbyn set o feini prawf dewis, a'u sgorio gan ddefnyddio graddfa 0 – 4; wedyn cân nhw eu lluosu â'r ffactor pwysoli cysylltiedig i roi sgôr derfynol.

Caiff y ceisiadau eu rhoi yn nhrefn eu teilyngdod. Caiff y ceisiadau eu dewis yn eu trefn nes na fydd arian ar ôl neu nes y byddwn wedi cyrraedd uchafswm nifer y ceisiadau. Ni allwn warantu y caiff yr holl arian ei ddyrannu, na chwaith y caiff uchafswm nifer y prosiectau eu dewis ar gyfer cam 2 y broses – cyflwyno Cais Llawn.

Dyma'r meini prawf ar gyfer dewis.

Adran y Cynllun Prosiect/Busnes sydd i'w hasesu	Sgôr	Ffactor pwysoli
Cyweddu Strategol	0 – 4	X 3
Cyflawnadwyedd	0 – 4	X 3
Gwerth am arian	0 – 4	X 4

- Ni chaiff yr un cais fynd yn ei flaen heb gael sgôr o 20 o leiaf.
- Byddai sgôr o 0 (sero) am unrhyw faen prawf yn golygu na chaiff y cais ei ystyried ar gyfer y cam nesaf.

Ar gyfer pob maen prawf, bydd yr asesiad yn seiliedig ar yr wybodaeth a'r esboniadau a roddir.

Bydd esboniadau cynhwysfawr sy'n cael eu cefnogi gan enghreifftiau o weithgareddau arfaethedig a manylion yn glŷn â sut bydd y gweithgareddau hynny'n cael eu rheoli yn derbyn sgôr uwch.

Rhoddir sgôr is am esboniadau nad ydyn nhw ond yn ddatganiad syml o fwriad, er enghraifft 'byddwn yn cynnal cyfarfodydd â rhanddeiliaid yn rheolaidd drwy gydol y prosiect'.

Cyweddu Strategol

Er mwyn i brosiect fodloni gofynion Cyweddu Strategol y cynllun, bydd angen i ymgeiswyr ddangos sut y bydd y buddsoddiad arfaethedig yn cyfrannu at nodau ac amcanion strategol y rownd gyllido a dangos pam mae angen y buddsoddiad. Bydd angen ichi esbonio sut bydd y buddsoddiad yn gwella perfformiad technegol ac ariannol y busnes a sut bydd y buddsoddiad yn galluogi'r busnes i gynhyrchu mwy mewn ffordd gynaliadwy.

Dangoswch sut bydd eich prosiect yn cyfrannu at yr amcanion a'r nodau strategol a dangos pam mae angen y buddsoddiad.

Cyflawnadwyedd

Er mwyn i brosiect fodloni'r asesiad o gyflawnadwyedd bydd angen i ymgeiswyr ddangos bod cyflawni'r prosiect yn realistig a hynny o fewn yr amserlen.

Dangoswch fod cyflawni ein prosiect yn realistig a hynny o fewn yr amserlen.

Gwerth am arian

Bydd buddsoddiad sy'n cadw neu'n diogelu swyddi presennol yn cael ei ystyried yn ganlyniad cadarnhaol. Hefyd, gallai buddsoddiadau hefyd ddiogelu'r busnes at y dyfodol, gan sicrhau bod y busnes yn gallu parhau neu ehangu mewn ymateb i bwysau'r farchnad neu bwysau amgylcheddol yn yr oes sydd ohoni neu yn y dyfodol. Dylai ymgeiswyr amlinellu ac egluro sut y gall y grant greu a/neu ddiogelu swyddi, ychwanegu gwerth at gynnyrch neu wasanaeth, gwella canlyniadau amgylcheddol a gwella cynaliadwyedd gweithgareddau'r sefydliad.

Dangoswch sut bydd y prosiect yn rhoi gwerth am arian.

Os nad ydych yn cael eich dewis, ond bod eich cais yn bodloni'r trothwy sylfaenol, byddwn yn eich hysbysu drwy eich cyfrif RPW ar-lein nad ydych wedi cael eich dewis.

Datganiad

Llofnod

Enw (llythrennau bras)

Dyddiad

Rôl yn y Fenter